PWYLLGOR SAFONAU

HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

Cyfeirnod achos OGCC:	202405939
Yr Aelod dan sylw:	Y Cynghorydd Mike Kermode
Yr awdurdod perthnasol:	Cyngor Tref Rhuddlan
Yr achwynydd:	Mr. Robert Williams
Dyddiad y gwrandawiad:	1af Hydref 2026
Dyddiad y penderfyniad:	8fed Hydref 2026

1. Cyflwyniad

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau yr adroddiad a gyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer achos rhif 202405939, ynghylch honiadau bod y Cynghorydd Mike Kermode o Gyngor Tref Rhuddlan wedi torri'r Cod Ymddygiad statudol.

Roedd y cŵyn yn ymwneud â chyfranogiad y Cynghorydd Kermode mewn penderfyniadau ynghylch cynnig gan Glwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio a datblygu Cae Chwarae'r Admiral, sydd wrth ymyl cartref ei ferch.

Mae pŵer y Pwyllgor i benderfynu'r mater yn deillio o adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliad 7 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon yr achosion honedig canlynol o dorri'r Cod:

Darpariaeth y Cod	Mater
6(1)(a)	Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod.
8(a)	Rhaid i Aelodau pan fyddent yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eu hawdurdod.

11(1)	Os bydd gan Aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â'u hawdurdod a'u bod yn mynychu cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid [iddynt] ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.
11(2)(a)	Os bydd gan Aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes sy'n ymwneud â['u] hawdurdod a'u bod yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig (boed drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electronig) i aelod neu swyddog o['u] hawdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylent gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn yr ohebiaeth ysgrifenedig.
12(1)	Os bydd gan Aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef bydd ganddynt hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eu barn ynghylch buddiant cyhoeddus.
14(1)(a)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal.
14(1)(c)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw.
14(1)(e)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

2. Dogfennau a Thystiolaeth a Ystyriwyd

2.1 Adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon dyddiedig 26ain Mawrth 2026, gan gynnwys ei atodiadau a'r bwndel tystiolaeth.

2.2 Crynodeb cyhoeddedig yr Ombwdsmon o achos 202405939.

2.3 Recordiad sain a thrawsgrifiad o gyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan a gynhaliwyd ar 14eg Mawrth 2024.

2.4 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan yr Ombwdsmon / y Swyddog Ymchwilio.

2.5 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan y Cynghorydd Kermode.

2.6 Canllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, os ystyriwyd cosb.

3. Crynodeb o'r Ffeithiau

3.1 Ar 23ain Ionawr 2024, gofynnodd Clwb Pêl-droed Rhuddlan i Gyngor Tref Rhuddlan ystyried datblygu cyfleusterau pêl-droed ar lawr gwlad a symud ei dîm oedolion o'i gae presennol (Pengwern) i Gae Chwarae'r Admiral.

3.2 Roedd gan y Cyngor Tref un ar ddeg o aelodau; y Cynghorydd Kermode oedd y Maer a'r Cadeirydd. Roedd tri chynghorydd, gan gynnwys merch y Cynghorydd Kermode, y Cynghorydd Burnham, yn byw wrth ymyl y cae; roedd y Cynghorydd Kermode wedi byw yn y tŷ hwnnw am flynyddoedd lawer hyd at 2023 pan symudodd, ac mae ei ferch yn byw yno ar hyn o bryd.

3.3 Yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024, datganodd un aelod fuddiant personol oherwydd bod ei gartref yn agos at yr ystafelloedd newid arfaethedig. Ni ddatganodd y Cynghorydd Kermode unrhyw fuddiant a chadeiriodd y drafodaeth.

3.4 Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae, o 5 pleidlais i 4, yn amodol ar gael cynnig mwy manwl. Pleidleisiodd y Cynghorydd Kermode yn erbyn hynny, ac ymatalodd yr aelod a oedd wedi datgan buddiant personol.

3.5 Ar ôl cyfarfod 8fed Chwefror 2024, gofynnodd yr aelod a oedd wedi datgan buddiant personol ac wedi ymatal rhag pleidleisio yn y cyfarfod hwnnw i'r Swyddog Monitro, drwy e-bost, am eglurhad ynghylch y Cod Ymddygiad a buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.

3.6 Yn dilyn hynny, ar 11eg Chwefror 2024, cynghorodd y Swyddog Monitro y gallai buddiant sy'n effeithio ar eiddo cynghorydd neu ei fwynhad ohono fod yn fuddiant personol; ac y dylai'r aelod wedyn ofyn iddo'i hun a fyddai 'aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod am y ffeithiau yn ystyried yn rhesymol fod eich buddiant mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu

eich barn ynghylch budd y cyhoedd'; cynghorodd y Swyddog Monitro, os mai ydy yw'r ateb i'r cwestiwn hwnnw, y dylai'r aelod ddatgan hynny, gadael y cyfarfod a pheidio â chymryd rhan na phleidleisio. Cynghorodd y Swyddog Monitro fod y penderfyniad hwn yn fater o farn i bob aelod ei wneud.

3.7 Ceisiodd y Cynghorydd Kermode sicrhau bod penderfyniad 8fed Chwefror 2024, i ganiatáu i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae mewn egwyddor, yn cael ei ailystyried.

3.8 Ar ôl cael cyngor yr oedd wedi gofyn amdano drwy e-bost gan y Swyddog Monitro ar 12fed Chwefror 2024 ynghylch defnyddio cynnig arbennig, drafftiodd a dosbarthodd gynnig arbennig i chwe aelod o'r cyngor a oedd wedi cytuno i'w gefnogi, gan nodi bod penderfyniad mis Chwefror wedi'i wneud yn rhy frysiog.

3.9 Ni chyfeiriodd y Cynghorydd Kermode at ei fuddiant personol a/neu ei fuddiant sy'n rhagfarnu yn y mater yn ei negeseuon e-bost perthnasol â chlerc Cyngor Tref Rhuddlan.

3.10 Cefnogodd chwe chynghorydd y cynnig arbennig, gan gynnwys y Cynghorydd Kermode a'r tri chynghorydd a oedd yn byw yn agos at y cae.

3.11 Yna daeth cais Clwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio Cae Chwarae'r Admiral yn ôl gerbron cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 14eg Mawrth 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, datganodd y Cynghorydd Kermode fuddiant personol oherwydd bod ei ferch yn byw wrth ymyl y cae, ond parhaodd i gadeirio'r eitem.

3.12 Yn ystod y ddadl, mynegodd y Cynghorydd Kermode ei wrthwynebiad personol i chwarae pêl-droed oedolion ar y cae.

3.13 Cwestiynodd cynghorwyr eraill a ddylid caniatáu i aelodau a oedd yn byw yn agos at y cae gymryd rhan a phleidleisio ar y mater.

3.14 Mewn ymateb i'r cwestiynau hynny, dywedodd y Cynghorydd Kermode fod pum datganiad o fuddiant wedi'u gwneud, eu bod i gyd yn rhai 'preifat', a'u bod wedi cael sicrwydd gan y Swyddog Monitro y gallent gymryd rhan a phleidleisio.

3.15 Nid oedd cyngor ysgrifenedig y Swyddog Monitro yn mynegi unrhyw gasgliad ynghylch a oedd gan unrhyw aelod unigol fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn hytrach, Yn hytrach, roedd yn nodi'r broses berthnasol a'r prawf gwrthrychol yr oedd yn ofynnol i bob aelod eu hystyried yng nghyd-destun ei amgylchiadau ei hun er mwyn pennu natur a maint unrhyw fuddiant a'r camau canlyniadol sy'n ofynnol o dan y Cod Ymddygiad.

3.16 Cynigiodd aelod ddarllen cyngor e-bost y Swyddog Monitro ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, ond ni chaniataodd y Cynghorydd Kermode hynny a symudodd yn syth at y bleidlais.

3.17 Pleidleisiodd y Cyngor o 6 i 4 i wrthod cais Clwb Pêl-droed Rhuddlan. Y chwe chynghorydd a gefnogodd wrthod y cais oedd yr un chwech a oedd wedi cefnogi'r cynnig arbennig, gan gynnwys y Cynghorydd Kermode a'r tri chynghorydd a oedd yn byw wrth ymyl y cae.

3.18 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y mater ar gau am chwe mis.

4. Penderfyniad

Penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Kermode wedi torri'r Cod Ymddygiad fel y nodir yn Adroddiad Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Methodd y Cynghorydd Kermode â datgan buddiannau sy'n rhagfarnu yng nghyfarfodydd 8fed Chwefror 2024 a 14eg Mawrth 2024, a arweiniodd at y methiannau dilynol, gan gynnwys methiant i roi ystyriaeth briodol i fudd y cyhoedd a'r camau a gymerwyd wedi hynny mewn perthynas â'r penderfyniad ynghylch Clwb Pêl-droed Rhuddlan a Chae Chwarae'r Admiral o ran a ddylid rhoi prydles ai peidio.

Yn benodol, penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Kermode wedi methu â chydymffurfio â'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad:

Darpariaeth	Canlyniad	Canfyddiad / rheswm y Pwyllgor
6(1)(a)	TORRI'R COD	Methiant i ddatgan buddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu, sy'n tanseilio hyder y cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn wrthrychol, yn dryloyw ac er budd y cyhoedd yn hytrach nag o dan ddylanwad buddiannau preifat.
11(1)	TORRI'R COD	Methiant i ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024. Methiant i ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024.
14(1)(a)	TORRI'R COD	Methiant i ymadael â'r cyfarfodydd ar 8fed Chwefror 2024 a 14eg Mawrth 2024 pan oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu.
14(1)(c)	TORRI'R COD	Ceisio dylanwadu ar y penderfyniad er gwaethaf y buddiant sy'n rhagfarnu.
14(1)(e)	TORRI'R COD	Cyflwyno sylwadau ar lafar yn y cyfarfod ar 14eg Mawrth 2024, er gwaethaf y buddiant sy'n rhagfarnu.

Rhoddwyd ystyriaeth i baragraff 8(a) (rhagbenderfynu). Cytunodd y Cynghorydd Kermode nad aeth i gyfarfod 14eg Mawrth 2024 â meddwl agored, a chytunodd ei fod wedi dweud wrth gynrychiolydd Clwb Pêl-droed Rhuddlan adeg y cyfarfod hwnnw "does dim ffordd y byddaf yn caniatáu i gyfleuster o'r fath gael ei adeiladu yn fy mhentref".

Fodd bynnag, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gytuno â phenderfyniad yr Ombwdsmon ar hyn, gan mai'r methiant difrifol i ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu o gyfarfod 8fed Chwefror 2024 ymlaen yw'r prif achos o dorri'r Cod Ymddygiad, ac mai ohono y mae popeth arall yn deillio.

O ran 11(2)(a) (buddiannau) o'r Cod, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gytuno â'r Ombwdsmon, er na chyfeiriodd y Cynghorydd Kermode (yn dilyn y cyfarfod ar 8fed Chwefror 2024) at ei fuddiant mewn gohebiaeth ysgrifenedig berthnasol â'r clerc, fod ei fuddiant sy'n rhagfarnu yn golygu na ddylai, beth bynnag, fod wedi ymwneud â'r ohebiaeth hon na'i hanfon o gwbl.

5. Rhesymau dros y Penderfyniad

5.1 Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Ystyriodd y Pwyllgor yn ofalus natur a maint cysylltiad y Cynghorydd Kermode â'r mater dan ystyriaeth ac a oedd ganddo fuddiant personol ac, os felly, a oedd ganddo hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu.

Roedd yr ystyriaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae merch y Cynghorydd Kermode yn byw yn agos at Gae Chwarae'r Admiral
- Ystyrir merch yn gydymaith personol agos o dan y Cod Ymddygiad
- Bod y Cynghorydd Kermode wedi byw yn yr un eiddo yn flaenorol. Roedd yn byw yno o 1971 hyd at 2023 cyn trosglwyddo'r eiddo i'w ferch
- Pryderon y Cynghorydd Kermode, a fynegwyd yn gyhoeddus, ynghylch defnyddio'r cae ar gyfer pêl-droed oedolion

Gyda'i gilydd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffactorau hyn yn creu buddiant personol clir yn y mater.

Yna cymhwysodd y Pwyllgor y prawf gwrthrychol ar gyfer buddiant sy'n rhagfarnu. Daeth i'r casgliad y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, yn ystyried bod y buddiant yn ddigon arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn y Cynghorydd Kermode ynghylch budd y cyhoedd.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor and, a oedd y Cynghorydd Kermode yn credu y gallai weithredu'n ddiduedd oedd y prawf, ond a fyddai sylwedydd gwybodus yn gweld yn rhesymol fod risg y gallai ei gysylltiad personol â'r mater ddylanwadu ar ei farn. Felly, canfu'r Pwyllgor fod buddiant personol y Cynghorydd Kermode hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

5.2 Cyfarfod 8fed Chwefror 2024

Yn ei gyfweliad â Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon ym mis Rhagfyr 2025, derbyniodd y Cynghorydd Kermode nad oedd wedi datgan buddiant personol yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024 ac y dylai fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, gan

fod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod y buddiant yn bersonol ac yn rhagfarnu, penderfynodd y Pwyllgor y dylai hefyd fod wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn y cyfarfod ar 8fed Chwefror 2024.

Gan fod y buddiant yn rhagfarnu, dylai'r Cynghorydd Kermode fod wedi ymadael â chyfarfod 8fed Chwefror 2024 a pheidio â chymryd unrhyw ran yn yr ystyriaeth o'r mater. Drwy aros yn bresennol, cymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio ar y mater, daeth yn rhan o benderfyniad y dylai fod wedi'i eithrio ohono. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y camau hyn wedi creu canfyddiad ymhlith y cyhoedd nad oedd y broses benderfynu wedi'i chynnal â'r gwrthrychedd a'r annibyniaeth angenrheidiol sy'n ofynnol o dan y Cod Ymddygiad.

5.3 Cyfarfod 14eg Mawrth 2024

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Kermode wedi datgan buddiant personol yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024. Fodd bynnag, canfu nad oedd y datganiad yn mynd yn ddigon pell oherwydd bod y buddiant hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

Ar ôl penderfynu bod buddiant sy'n rhagfarnu yn bodoli, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cynghorydd Kermode fod wedi ymadael â chyfarfod 14eg Mawrth 2024 yn syth ar ôl datgan y buddiant, ac na ddylai fod wedi aros yn yr ystafell tra oedd y mater yn cael ei ystyried. Canfu'r Pwyllgor na ddylai fod wedi cadeirio'r drafodaeth, cymryd rhan yn y ddadl, ceisio dylanwadu ar aelodau eraill na phleidleisio ar y mater.

Creodd gweithredoedd yr aelod risg sylweddol o danseilio hyder y cyhoedd bod penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn wrthrychol, yn dryloyw ac er budd y cyhoedd yn hytrach nag o dan ddylanwad buddiannau preifat aelodau.

5.4 Cyngor y Swyddog Monitro

Ystyriodd y Pwyllgor recordiad sain a thrawsgrifiad y cyfarfod ynghyd â'r dystiolaeth ynghylch yr amgylchiadau pan na ddarllenwyd cyngor y Swyddog Monitro yn llawn i'r aelodau.

Camgyfleuodd y Cynghorydd Kermode gyngor y Swyddog Monitro drwy gyfleu i'r aelodau eu bod wedi cael sicrwydd y gallent gymryd rhan a phleidleisio, pan nad oedd y cyngor a roddwyd yn cynnig unrhyw sicrwydd o'r fath ac, yn hytrach, yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod gymhwyso'r prawf perthnasol i'w amgylchiadau ei hun.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod ymyriad dilynol y Cynghorydd Kermode wedi atal cyngor y Swyddog Monitro rhag cael ei ddarllen yn llawn i'r aelodau. Gan fod y cyngor yn ymwneud ag eglurder ynghylch datgan a rheoli buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, a bod aelodau eraill wedi codi'r buddiannau hyn yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn arwyddocaol.

Canfu'r Pwyllgor fod aelodau wedi'u hamddifadu o'r cyfle i ystyried cyngor llywodraethu perthnasol cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen, a bod hyn wedi cyfrannu ymhellach at danseilio hyder y cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn wrthrychol, yn dryloyw ac er budd y cyhoedd yn hytrach nag o dan ddylanwad buddiannau preifat aelodau.

6. Cosb

Wrth benderfynu ar y gosb briodol, dilynodd y Pwyllgor y broses bum cam a nodir yng Nghanllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru.

6.1 Difrifoldeb yr achos o dorri'r Cod

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y methiant i ddatgelu a rheoli buddiant sy'n rhagfarnu yn briodol yn achos difrifol o dorri'r Cod ac y byddai hynny yn achosi niwed sylweddol i enw da Cyngor Tref Rhuddlan.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y Cynghorydd Kermode ar fai am fethu â datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu. Canfu ei fod, drwy ei ymddygiad yn y ddau gyfarfod a'i weithredoedd rhyngddynt, wedi cymryd camau a'i galluogodd i

gymryd rhan a phleidleisio ar fater na ddylai fod wedi ymwneud ag ef o gwbl. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y Cynghorydd Kermode, drwy ddefnyddio ei swydd fel Cadeirydd a Maer Cyngor Tref Rhuddlan yn y modd hwn, wedi dylanwadu'n amhriodol ar broses benderfynu'r Cyngor ynghylch Clwb Pêl-droed Rhuddlan a Chae Chwarae'r Admiral yn y cyfarfod ar 14eg Mawrth 2024.

Ychwanegodd diystyrwch y Cynghorydd Kermode o'r cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro wrth benderfynu a oedd ganddo fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu at ddifrifoldeb yr achos o dorri'r Cod.

Nid oes unrhyw achosion blaenorol wedi'u cofnodi o'r Cynghorydd Kermode yn torri'r Cod Ymddygiad.

6.2 Dewis y gosb bosibl

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gosbau a oedd ar gael, gan ddechrau gyda'r rhai a fyddai'n cael yr effaith leiaf. Daeth i'r casgliad na fyddai peidio â chymryd unrhyw gamau yn adlewyrchu difrifoldeb yr achosion o dorri'r Cod yn ddigonol. Daeth hefyd i'r casgliad na fyddai cerydd yn ddigonol, o ystyried natur yr ymddygiad a'r diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol o'i ddifrifoldeb. Mae'r Cynghorydd Kermode wedi cael hyfforddiant ar y Cod ac mae'n cytuno ei fod yn gyfarwydd iawn ag ef, ond mae wedi parhau, ac yn parhau, i fynegi'r farn nad oedd wedi torri'r Cod.

Penderfynodd y Pwyllgor mai gwaharddiad dros dro oedd y gosb briodol a chymesur. Yn benodol, ystyriodd ei ganfyddiadau fod ymddygiad y Cynghorydd Kermode wedi tanseilio hyder y cyhoedd yn uniondeb, natur agored a didueddrwydd proses benderfynu'r Cyngor.

6.3 Ffactorau lliniarol a gwaethygol

Wrth benderfynu ar hyd y gwaharddiad dros dro, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddyledus i'r ffactorau lliniarol a gwaethygol canlynol:

Ffactorau lliniarol

- Hanes blaenorol o wasanaeth da dros gyfnod hir
- Cydweithredu â'r Swyddog Ymchwilio a'r Pwyllgor Safonau
- Parodrwydd datganedig i fynychu hyfforddiant yn y dyfodol
- Ymrwymiad datganedig i geisio cyngor priodol ar y Cod yn y dyfodol
- Cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad

Ffactorau gwaethygol

- Profiad helaeth, statws uwch a swydd gyfrifol fel Maer a Chadeirydd
- Manteisio'n fwriadol ar swydd gyhoeddus
- Diffyg dealltwriaeth neu dderbyniad o'r camymddygiad
- Ymddygiad bwriadol neu ddi-hid heb fawr ddim ystyriaeth, os o gwbl, i'r Cod
- Anwybyddu'n fwriadol gyngor ynghylch yr ymddygiad
- Gweithredu sydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwahardd y Cynghorydd Kermode dros dro am bedwar mis. Argymhellodd yn gryf hefyd y dylai, ar ôl i gyfnod y gwaharddiad dros dro ddod i ben, ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod.